Ysgol Dyffryn Aman

Pennaeth/Headteacher
Mr James Durbridge

Ysgol Dyffryn Aman
Stryd Marged/Margaret Street
Rhydaman/Ammanford
Sir Gaerfyrddin/Carmarthenshire
SA18 2NW

Tel: (01269) 592441
ebost/email: admin@dyffrynaman.org

15/09/2021

Annwyl rieni a gwarcheidwaid

Mae wedi bod yn bleser croesawu'ch plant yn ôl i'r ysgol. Hyd yn hyn y tymor hwn, bûm yn falch iawn ag agweddau disgyblion tuag at eu dysgu ac yn enwedig yr aeddfedrwydd a ddangoswyd gan bawb yn ystod ymarfer dril tân diweddar. Fel y nodwyd yn fy llythyr blaenorol, mae gwisg ysgol yn cael ei gwisgo â balchder gan y mwyafrif o ddisgyblion a bydd staff yn gwirio'r wisg yn rheolaidd yn ystod sesiynau cofrestru'r bore wrth i ni barhau â'n taith yn ôl i drefniadau a strwythurau normal.

**Covid-19**

Mae'n siwr eich bod yn ymwybodol ein bod ni, fel llawer o ysgolion yn y sir, wedi gweld achosion o Covid19 wedi'u cadarnhau eisoes y tymor hwn. Mae hynny i'w ddisgwyl, wrth i gymdeithas symud tuag at reoli a byw gyda'r firws hwn. Fodd bynnag, er mwyn lliniaru effeithiau'r feirws, mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda'n gilydd. Rwyf eisoes wedi rhannu, trwy wefan yr ysgol, lythyr gan yr Awdurdod Lleol yn amlinellu'r newidiadau i olrhain cyswllt a hunan-ynysu o'r mis Medi hwn. Felly, hoffwn atgoffa pob rhiant a gwarcheidwad o'r camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd os amheuir neu y cadarnheir achos.

- Os yw disgybl yn dangos unrhyw un o symptomau 'clasurol' Covid-19 (tymheredd uchel, peswch newydd ac estynedig neu golli blas / arogl), ni ddylai ef neu hi fynychu'r ysgol. Archebwch brawf PCR ac rydym yn annog disgyblion i beidio a mynychu'r ysgol nes eich bod yn derbyn y canlyniad (o fewn 24 awr fel arfer).
- Rydym yn annog pob disgybl i sefyll profion LFT ddwywaith yr wythnos. Os yw prawf yn bositif, archebwch brawf PCR. Peidiwch a mynychu'r ysgol oni bai bod y prawf PCR yn negyddol. Rhowch wybod i ni eich bod wedi derbyn prawf LFT positif. Mae angen caniatâd rhieni neu warcheidwaid cyn y byddwn yn rhyddhau profion LFT i ddisgyblion. Dolen i'r ffurflen gydsynio
- Os yw prawf PCR ar gyfer disgybl yn bositif, rhowch wybod i'r ysgol trwy e-bostio ydahelpdesk@hwbwave15.onmicrosoft.com gyda llun o ganlyniad y prawf. Bydd y gwasanaeth TTP yn cysylltu â chi'n uniongyrchol, ond dylai'r disgybl hunan-ynysu a pheidio a mynychu'r ysgol tan y dyddiad a roddir gan y gwasanaeth TTP.
- Os yw'ch plentyn yn gyswllt agos âg achos positif, hyd yn oed yn eich teulu eich hun, nid oes angen hunan-ynysu oni bai bod TTP yn cynghori hynny. Fodd bynnag, pe baech yn gwneud penderfyniad i hunan-ynysu o dan yr amgylchiadau hynny, byddem yn cefnogi'r penderfyniad hwnnw.

**Brechlyn ffliw**

Mae'r disgyblion wedi derbyn gwybodaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ynglyn â brechlyn ffliw chwistrell trwynol. Sylwch nad rhaglen frechu Covid-19 yw hon. Ni fydd disgyblion yn cymryd rhan yn y rhaglen hon heb gydsyniad rhieni neu warcheidwaid. Darllenwch y wybodaeth yn ofalus a gwnewch eich penderfyniadau yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir. Disgwylir i'r brechiadau ffliw ddigwydd ar Dachwedd 4ydd / 5ed.

**Swyddog Diogelwch Ffyrdd**

Ni fydd ein swyddog diogelwch ffyrdd ar y safle rhwng dydd Llun 20fed a dydd Gwener 24ain o Fedi ac felly ni fydd unrhyw un yn gweithredu man croesi'r ysgol yn ystod yr amseroedd hyn. Bydd aelodau o'r Uwch Dîm Arwain yn parhau ar ddyletswydd yn ystod yr amseroedd hyn fel arfer.

Diolch eto am eich cefnogaeth barhaus eleni, rydym yn ei werthfawrogi'n fawr. Parhewch i fonitro gwefan yr ysgol i dderbyn diweddariadau pellach.

Cadwch yn ddiogel.

Yr eiddoch yn gywir

J. Durbridge

James Durbridge
Pennaeth

Ysgol Dyffryn Aman

Pennaeth/Headteacher
Mr James Durbridge

Ysgol Dyffryn Aman
Stryd Marged/Margaret Street
Rhydaman/Ammanford
Sir Gaerfyrddin/Carmarthenshire
SA18 2NW

Tel: (01269) 592441
ebost/email: admin@dyffrynaman.org

15/09/2021

Dear parents and guardians

I have taken great pride in welcoming your children back to the school. So far this term, I have been very pleased with pupils' attitudes towards their learning and especially the maturity shown by all during recent fire drill practices. As noted in my previous letter, school uniform is worn with pride by most pupils and uniform checks will continue to take place during morning registration sessions as we continue our journey back to normal operations.

**Covid-19**

You will be aware that, like many schools in the county, we have seen confirmed cases of Covid19 already this term. That is to be expected, as society moves towards managing and living with this virus. However, in order to mitigate its effects, it is important that we work together. I have already shared, via the school website, a letter from the Local Authority outlining the changes to contact tracing and self-isolation from this September. I would therefore like to remind all parents and guardians of the steps they need to take if a case is suspected or confirmed.

• If a pupil is showing any of the 'classic' symptoms of Covid-19 (a high temperature, new and prolonged cough or loss of taste/smell, he or she should not attend school. Please book a PCR test and it is advisable for pupils not to attend school until a result is received (usually 24 hours).

• We encourage all pupils to take LFT tests twice a week. If a test is positive, please book a PCR test. Do not attend school unless the PCR test is negative. Please let us know that you have received a positive LFT test. Consent from parents or guardians is required before we will release LFT tests to pupils. Link to consent form

• If a PCR test for a pupil is positive, please let the school know by emailing ydahelpdesk@hwbwave15.onmicrosoft.com with a screenshot of the test result. The TTP service will contact you directly, but the pupil should self-isolate and not attend school until the date given by the TTP service.

• If your child is a close contact of a positive case, even within your own family, there is no need to self-isolate unless advised to by TTP. However, should you make a decision to self-isolate under those circumstances, we would support that decision.

**Flu vaccine**

Pupils received information from Public Health Wales regarding a nasal spray flu vaccine. Please note that this is **not** a Covid-19 vaccination programme. Pupils will not be involved in this programme without consent from parents or guardians. Please read the information carefully and make your decisions based on the information provided. Flu vaccinations are due to take place on November 4$^{th}$/5$^{th}$.

**School Patrol Officer**

Our school patrol officer will not be on site from Monday 20th to Friday 24th September and therefore there won't be anyone operating the school crossing point during these times. Members of the Senior Leadership Team will still be on duty as usual.

Thank you again for your continued support this year, it is greatly appreciated. Please continue to monitor the school website for further updates.

Stay well and keep safe.

Yours sincerely

J. Durbridge

James Durbridge
Headteacher